

PWYLLGOR	Cydbwyllgor Ymgynghorol AHNE Llŷn
DYDDIAD	22 Tachwedd 2016
TEITL	Y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
PWRPAS	Diweddariad ar y Gronfa Datblygu Cynaliadwy
AWDUR	Swyddog Prosiectau AHNE Llŷn
ARGYMHELLIAD	Derbyn yr Wybodaeth

1.0 CYFLWYNIAD

1.1 Cyflwynir yr adroddiad hon er gwybodaeth i aelodau'r Cydbwyllgor, am sefyllfa'r Gronfa Datblygu Cynaliadwy hyd yma a datblygiadau sydd ar y gweill yn ymwneud â hi.

2.0 GWYBODAETH GYLLIDOL

2.1 Allan o'r **£55,000** oedd yn y Gronfa ar ddechrau 2016/17, mae **£173.67** yn weddill.

2.2 Mae Atodiad 1 yn cynnwys crynodeb.

3.0 GWAITH Y GWASANAETH AHNE

3.1 Mae staff y Gwasanaeth AHNE yn darparu cefnogaeth gyson, arweiniad a chynghor am y Gronfa i ymgeiswyr ac hefyd wedi bod yn hyrwyddo a marchnata drwy'r dulliau canlynol:-

- Llanw Llŷn
- Llygad Llŷn
- Gwefan yr AHNE
- Ras Aredig Sarn a'r Cylch (Stondin Wybodaeth)
- Sioe Nefyn (Stondin Wybodaeth)
- Sioe Tudweiliog (Stondin Wybodaeth)

3.2 Rydym hefyd yn cydweithio yn agos gyda Swyddog Adfywio Bro (Adran Economi a Chymuned Cyngor Gwynedd) sydd yn ein cynorthwyo i hyrwyddo, ac sy'n adnabod prosiectau o fewn y gymuned all elwa o gymorth y Gronfa.

4.0 ARGYMHELLIAD

4.1 Derbyn yr wybodaeth uchod am y Gronfa Datblygu Cynaliadwy.